



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

08456 000 813

## BETH AM FOD YN FWY GWYRDD?

Ffermio cynaliadwy... mae'n fwy  
effeithiol, effeithlon a phroffidiol

.....lleihau ôl troed carbon eich busnes fferm

.....gwella bioamrywiaeth

Gall Cyswllt Ffermio eich helpu  
**CHI** i wneud gwahaniaeth



[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

## Lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd trwy ffermio'n gynaliadwy

Mae pwysau cynyddol ar y sector amaethyddol yng Nghymru, y DU ac ar draws y byd i wella perfformiad amgylcheddol. Yn syml iawn, dylai ffermwyr a choedwigwyr weithredu mewn ffordd nad yw'n effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd.

Erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob busnes fferm yng Nghymru fod yn garbon niwtral, i leihau allyriadau a chanfod ffyrdd o storio carbon.

Mae ffermio'n gynaliadwy'n golygu gweithredu i helpu datrys pryderon amgylcheddol allweddol. Mae angen i'r diwydiant gyfrannu at **drechu'r newid yn yr hinsawdd** trwy, er enghraifft, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyr a storio carbon mewn coed, priddoedd a mawn; **sicrhau dŵr glanach** trwy ddefnyddio tail a gwrtaith yn ofalus; **sicrhau aer glanach** trwy wella dulliau rheoli slyri; **gwella iechyd y pridd** a chreu tirweddau gwyrddach trwy **gynyddu bioamrywiaeth** a gwella cynefinoedd naturiol.

Y newyddion da yw y bydd rhedeg busnes cynaliadwy sy'n lleihau niwed i'r amgylchedd hefyd yn eich cynorthwyo i redeg busnes fferm mwy effeithlon, effeithiol a phroffidiol.

Gyda'n cefnogaeth, byddwch yn gallu gweld eich sefyllfa bresennol o ran ôl troed carbon a bioamrywiaeth eich fferm. Byddwn ni'n eich cynorthwyo i wneud gwahaniaeth. Darllenwch ymhellach i ddarganfod rhagor...

## A yw'n bryd edrych o'r newydd ar eich busnes?

Er mwyn lleihau ôl troed carbon eich fferm neu fusnes coedwigaeth a gwella bioamrywiaeth, dyma'r camau cyntaf y dylech eu cymryd...

- ✓ **asesu'r asedau naturiol sydd gennych chi** - efallai bod gennych fwy nag y byddech wedi'i ddychmygu, a byddwn yn darparu arweiniad i'ch cynorthwyo
- ✓ **ystyried pa newidiadau neu welliannau y gallwch eu gwneud** - blaenoriaethwch y ffyrdd gorau a mwyaf cost-effeithiol o helpu eich busnes i gyrraedd ei nodau 'ffermio cynaliadwy'.

Gyda chymorth, arweiniad a hyfforddiant ar gael drwy Cyswllt Ffermio, byddwch yn gwybod...

- lle mae eich busnes nawr, o ran eich ôl troed carbon a'ch arferion gwaith ecogyfeillgar sy'n diogelu adnoddau naturiol ac yn cynyddu bioamrywiaeth
- lle mae angen i chi fod erbyn 2050, i'ch cynorthwyo i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau busnesau fferm carbon niwtral

Dewch i ni gychwyn ar y daith o 'ddod yn fwy gwyrdd' gyda'n gilydd!



## Lleihau eich Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, cynyddu eich elw

Gyda'r cyngor arbenigol, y gwasanaethau cynghori, yr arweiniad, y digwyddiadau a'r hyfforddiant sydd ar gael trwy raglen Cyswllt Ffermio, byddwch chi'n gallu gweithredu systemau cost effeithiol ac effeithlon a fydd yn eich cynorthwyo i chwarae eich rhan trwy leihau eich allyriadau carbon, lleihau'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd, a bod yn fwy proffidiol ar yr un pryd.

- **Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a sichrau aer glanach** - trwy leihau allyriadau carbon a methan trwy reoli'r pridd, porthiant a choetir, dulliau o storio a gwasgaru slyri a thail, gwasgaru gwrrtaith yn ofalus, newid diet da byw, edrych ar siediau da byw a gosod systemau ynni adnewyddadwy ar y fferm er enghraifft.
- **Dŵr glanach** trwy wahanu dŵr glân a dŵr budur yn effeithiol a gwella isadeiledd y busnes er enghraifft.
- **Tirweddau gwyrddach** trwy wella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol trwy roi strategaeth goetir ar waith, gwella gwrychoedd ac annog bywyd gwyllt er enghraifft.




## Ffermio cynaliadwy...llwyddiant cynaliadwy...dull holistaidd

Er mwyn diogelu atmosffer y ddaear ac osgoi cyfrannu at argyfwng hinsawdd byd-eang, mae'n rhaid i ffermwyr ddarganfod ffyrdd o...

- ✓ leihau allyriadau carbon a methan
- ✓ casglu carbon trwy dyfu coed ac adfer mawndir
- ✓ storio carbon mewn coed, priddoedd a mawndir

Mae Cyswllt Ffermio wedi canolbwyntio ein gwasanaethau cefnogi ar rai o'r meysydd allweddol lle'r ydym ni'n gwybod y gall busnesau Cymru wneud cyfraniad sylweddol.

- lechyd anifeiliaid, perfformiad a phroffidioldeb da byw gyda llai o dda byw'n cynnal yr un allbynnau
- Effeithlonrwydd a ffrwythlondeb gwartheg a mamogiaid
- Maeth a geneteg
- Defnydd o wrtaith a mewnbynnau eraill
- Defnydd o dail anifeiliaid a rheoli maetholion
- Glaswellt a phorthiant i gynnal neu wella cynhyrchiant a lleihau mewnbynnau dwysfwd
- Rheoli pridd a glaswelltir i gynyddu deunydd organig y pridd
- Creu a rheoli bioamrywiaeth trwy reoli coetir, mawndir, coed unigol a gwrychoedd
- Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd tanwydd



## Gall Cyswllt Ffermio eich helpu, bob cam o'r ffordd

### ADNODDAU RHYNGWEITHIOL AR-LEIN

- Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu adnodd rhyngweithiol ar-lein sy'n cynnig cyngor ar y camau cyraeddadwy y gall ffermwyr eu cymryd er mwyn lleihau allyriadau o'u busnesau. Ewch i'r wefan i ddefnyddio'r adnodd **'Cynyddu elw, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr'**.

Mae'r adnodd hefyd yn amlygu'r effeithiau cadarnhaol y mae ffermwyr yn eu cael ar yr amgylchedd, megis gallu priddoedd amaethyddol i storio llawer iawn o garbon, a rôl amaethyddiaeth o ran darparu dŵr yfed glân a chynefinoedd.

### GWASANAETH CYNGHORI

- cyngor arbenigol cyfrinachol un-i-un ar ystod o faterion yn canolbwyntio ar leihau nwyon tŷ gwydr a chynyddu bioamrywiaeth, wedi'u hariannu hyd at 80% ar gyfer unigolion ac wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer ceisiadau grŵp.

### CYMORTHFEYDD A CHLINIGAU

- gallwch archebu 'clinig carbon' neu gymhorthfa benodol un-i-un wedi'i ariannu'n llawn lle byddwch yn derbyn arweiniad ar brif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr; opsiynau ar gyfer cyfrifianellau carbon digidol; archwilio eich defnydd o ynni a thrafod meysydd eraill lle byddai modd lleihau carbon ar eich fferm.

### MENTORA

- gallwch ganfod mentor a allai rannu ei brofiad ef/hi o sut yr aeth ati i wynebu'r her o gynaliadwyedd ar ei fferm ei hun, a'ch cynorthwyo i ddatblygu eich cynllun gweithredu eich hunain. Defnyddiwch yr opsiwn hidlo 'Ffermio Cynaliadwy' ar y cyfeiriadur mentoriaid i ddod o hyd i fentor addas.

### HYFFORDDIANT

- rydym ni'n darparu nifer o opsiynau hyfforddiant ar sail un-i-un neu fel grŵp. Mae'r pynciau'n amrywiol, gan gynnwys 'Lleihau nwyon tŷ gwydr mewn systemau da byw' a 'Defnyddio a gwasgaru slyri'n ddiogel' gyda llawer mwy.

### E-DDYSGU

- rydym ni'n darparu modiwlau wedi'u hariannu'n llawn yn trafod amrywiaeth o bynciau'n ymwneud yn benodol â'r newid yn yr hinsawdd, rheoli'r tir, coetiroedd a rheoli da byw. Mae 'Llygredd aer Amaethyddol', 'Lleihau llygredd amaethyddol', 'Rheoli slyri', a 'Ffermio ar gyfer peillwyr' yn rai o'r modiwlau sydd ar gael.

### AGRISGÔP

- ystyried ffurfio grŵp Agrisgôp er mwyn deall heriau cynaliadwyedd, adnabod y cyfleoedd a datblygu atebion mewn sefyllfa wedi'i hwyluso gyda ffermwyr eraill sy'n rhannu'r un nodau.



# HELPU EICH BUSNES I 'FYND YN WYRDDACH'

Yng Nghymru, mae cymorth i 'fynd yn wyrddach' ar gael drwy Cyswllt Ffermio a'n dewis cynhwysfawr o wasanaethau cymorth, arweiniad, digwyddiadau, hyfforddiant ac adnoddau ar-lein.

---

## Cyswllt Ffermio

Mae manylion cyswllt ar gyfer y swyddogion datblygu, yn ogystal ag arweiniad llawn ynglŷn â'r Gwasanaeth Cyngtori ar gael ar ein gwefan.

➡ Gwefan: [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

➡ Ffôn: Canolfan Wasanaeth - 08456 000 813

➡ E-bost: [cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk](mailto:cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk)

